PWYLLGOR CRAFFU’R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MERCHER, 16 TACHWEDD 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Wong(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Henshaw, Jenkins, Lloyd Jones a/ac Naughton |

35 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Brown-Reckless a Robinson.

36 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi’u derbyn.

37 : Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN: DIWEDDARIAD

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn rhoi cyfle iddynt graffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i'r Cabinet, sydd wedi’i atodi yn Atodiad A y papurau.

Cwmpas craffu'r Pwyllgor yw archwilio'r cynigion sydd yn yr adroddiad i'r Cabinet, o ran y rhaglen arfaethedig, y cynllun cyflawni, trefniadau gweithredu a llywodraethu, y goblygiadau ariannol i'r Cyngor, a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor, beth yw'r camau nesaf, ac, yn hollbwysig, archwilio'r argymhellion i'r Cabinet.

Croesawodd y Cadeirydd

- Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd
- Paul Orders, Prif Weithredwr
- Louise Bassett – Rheolwr Gweithredol – Partneriaethau a Chomisiynu, Tai a Chymunedau
- Jon Day – Rheolwr Gweithredol - Twristiaeth a Buddsoddi
- Natalie Southgate – Rheolwr Cyflawni Partneriaeth, Tai a Chymunedau

Gwahoddwyd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr i wneud datganiadau ac ar ôl hynny cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Swyddogion. Yna gwahoddwyd yr Aelodau i wneud unrhyw sylwadau, arsylwadau neu i ofyn unrhyw gwestiynau.

Roedd aelodau'n awyddus i wybod a fydd rhaglenni newydd yng Nghaerdydd yn dod o dan y cynllun hwn. Eglurodd swyddogion y bydd yna raglen grantiau yn cael ei sefydlu ym mlwyddyn 1 a bydd sgwrs ranbarthol o'i chwmpas; bydd dyraniadau'n digwydd ym mlynyddoedd 2 a 3.

Roedd yr aelodau yn cyfeirio at gymorth targedig cyn ac ar ôl 16, ac roeddent o'r farn y byddai cymorth gyda chyllid ar gyfer teithio i addysg yn fuddiol iawn. Dywedodd swyddogion fod hyn yn rhywbeth y gallai'r gwasanaeth ei godi gyda chyllid. Cyfeiriodd yr Arweinydd at Addewid Caerdydd gan nodi fod perfformiad da wedi bod ar hyn yn y 10 mlynedd diwethaf, a hefyd o ran cyflogaeth.

Trafododd yr Aelodau'r Ddinas 15 Munud a chymunedau anodd eu cyrraedd. Gofynnodd yr aelodau am eglurhad am sut mae 'cymunedau anodd eu cyrraedd' yn cael eu dosbarthu, gan nodi bod rhai cymunedau yn agos i ganol y ddinas ond nad oes ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth da o hyd. Nododd yr aelodau hefyd nad oedd sôn am strategaeth gerdded, gan gyfeirio at welliannau i'r palmant a chyrbau isel. Nododd yr Arweinydd mai pwyntiau teg oedd y rhain ond mae angen edrych ar yr heriau yng nghyd-destun y bwlch yn y gyllideb sy'n wynebu'r Cyngor, a'r angen i flaenoriaethu ar sail anghenion – tlodi materol ac anghydraddoldeb. Nodwyd bod 'anodd eu cyrraedd' yn golygu mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â mynediad at ffordd o gludiant megis ceir. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd gweithio gydag Aelodau a'r Tîm Adfywio Cymdogaethau i sicrhau bod materion lleol yn cael eu codi.

Gyda newidiadau diweddar ar lefel Llywodraeth y DU, fe ofynnodd Aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannu gan ofyn a oedd risg o doriadau i'r rhaglen. Esboniodd swyddogion mai'r disgwyl oedd y bydd Caerdydd yn derbyn yr hyn y mae wedi'i ddisgwyl, ni fu diweddariad pellach.

Cyfeiriodd aelodau at faterion Trafnidiaeth a thagfeydd, gan ofyn a oedd unrhyw gynlluniau i dargedu'r rhain o fewn y rhaglen. Esboniodd yr Arweinydd fod yna arian ond mae ar ymylon yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud. Ychwanegodd fod y Strategaeth Drafnidiaeth yn parhau, bu trafodaethau ynghylch Ardoll Amgylcheddol, roedd yna fater o ddiffyg boddhad gyda thrafnidiaeth gyhoeddus ac roedd pob ochr, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn wynebu pwysau cyllid, ni all y Gronfa Ffyniant Gyffredin fynd i'r afael â'r holl faterion.

Cynhaliwyd trafodaeth o amgylch Canol y Ddinas o ran glendid a amgylchfyd cyhoeddus, ardaloedd sydd wedi cael eu cloddio gan gwmnïau cyfleustodau a heb eu hadfer yn effeithiol ac ati, ac a ellid mynd i'r afael â materion fel y rhain drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dywedodd swyddogion y byddai'r rhaglen yn rhoi capasiti yn ôl yng nghanol y ddinas er mwyn mynd i'r afael â'r union fathau hyn o faterion. Ychwanegodd yr Arweinydd ynglŷn â chyfleustodau, y byddai'r mater gyda'r gallu i orfodi safon dda o adfer yn dod o dan raglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Gofynnodd cynrychiolydd y Cyngor Ieuenctid am sut roedd gwerth yn cael ei neilltuo i bob un sector, gan roi enghraifft Strategaeth Gerdd Caerdydd i'w gweld yn cael mwy na Dinas sy'n Dda i Blant. Esboniodd swyddogion ei bod yn bwysig gweld y rhaglen yn ei chyfanrwydd, Dinas sy'n Dda i Blant, Gwasanaethau Ieuenctid, Addysg ac ati mae gwahanol ffrydiau ariannu felly roedd angen edrych arnynt gyda'i gilydd. Esboniodd swyddogion fod dyraniad ar sail proses sgorio, roedd hyn yn dal i fod yn waith ar y gweill a dogfen fyw ac esblygu y gellir ei dylanwadu o hyd. Esboniodd yr Arweinydd bwysigrwydd gwneud lleoedd a diwylliant a sut mae'r rhain wedi'u nodi fel rhai hanfodol i wneud Caerdydd yn hyfyw yn economaidd wrth symud ymlaen, i greu swyddi i bobl ifanc a gwneud Caerdydd yn le deniadol i bobl fyw a gweithio. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei bod yn bwysig edrych ar gyfanswm gwariant o ran gwneud Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant.

Gofynnodd yr aelodau am sut mae'r Cyngor yn lliniaru ansicrwydd cyllid ac a yw hyn yn cyfyngu ar uchelgeisiau, gwneud penderfyniadau a phrosiectau sy'n barod i fynd. Dywedodd yr Arweinydd fod blaenoriaethu trylwyr wedi bod yn ei farn ef i gefnogi gwasanaethau er nad oedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin eto i ddod drwodd, darparwyd esiampl y Gwasanaeth i Mewn i Waith. Ychwanegodd bod y trydydd sector, fodd bynnag, yn ddealladwy, yn bryderus am gronfeydd strwythurol yn dod i ben. Ychwanegodd swyddogion eu bod wedi ceisio dylunio hyn er mwyn lliniaru cymaint â phosib; byddai'r rhan fwyaf o arian yn dod ym mlwyddyn 3, yn ddelfrydol byddai mwy o amser i gynllunio ond mae swyddogion wedi gwneud yr hyn maen nhw'n gallu i gael y gorau i bobl Caerdydd.

Nododd yr aelodau mai dim ond 5 mis sydd ar ôl o'r flwyddyn ariannol gan ofyn a oedd disgwyl i'r arian gael ei ddwyn ymlaen. Esboniodd swyddogion eu bod wedi cael gwybod na fyddai dwyn ymlaen, roedd hyn yn seiliedig ar gyllid sy'n cael ei dderbyn ym mis Hydref, felly mae'n bosib y bydd trafodaeth bellach ar hyn o ystyried hynny nawr yng nghanol mis Tachwedd.

Nododd yr aelodau y byddai Etholiad Cyffredinol yn ystod 3 blynedd y rhaglen a gofynnodd a oedd hyn wedi cael ei adlewyrchu o ran a fyddai hyn yn cymhlethu pethau. Dywedodd yr Arweinydd mai'r realiti y mae'n rhaid delio ag ef a chynlluniau a wnaed yn unol â hynny. Wrth i'r Etholiad Cyffredinol ddod yn nes, efallai y bydd mwy o eglurder ar ba bolisïau fyddai'n cael eu blaenoriaethu.

Roedd yr aelodau yn trafod Llywodraethu ac yn gofyn a fyddai cyfleoedd i Aelodau ddylanwadu y tu allan i'r broses graffu. Fe holodd yr aelodau am y trydydd sector hefyd ac a fyddai cyfle i ddylanwadu wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen. Esboniodd swyddogion y byddai ymgysylltu ag Aelodau, mewn sesiynau craffu, gyda'r Tîm Adnewyddu Cymdogaethau, yn ogystal â galwad agored i Aelodau a allai fod eisiau llunio a phenderfynu ar y rhaglen. Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod yn awyddus i sicrhau cyfranogiad ac atebolrwydd y Cabinet, gan ychwanegu hefyd bod craffu'n hanfodol ochr yn ochr â Chaerdydd AM BYTH, C3SC, BGC ac ati.

Nododd yr aelodau mai rhaglen grantiau oedd hon ond gofynnodd a oedd lle yn y cynllun am fenthyciadau i fusnesau newydd. Eglurodd swyddogion y bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar grantiau yn hytrach na benthyciadau gan nad yw'n rhaglen ariannu. Nid oedd swyddogion ychwaith yn rhagweld y byddent yn delio â phobl â syniadau busnes cychwynnol, byddai'n fusnesau sydd eisoes wedi'u sefydlu rhywfaint. Ychwanegodd yr Arweinydd bod marchnad orlawn ar gyfer cefnogaeth busnesau yng Nghaerdydd, sy'n golygu ei fod yn borth eithaf cymhleth i fusnesau gael cefnogaeth y Llywodraeth, mae angen gwneud hyn yn symlach.

Cyfeiriodd aelodau at elfennau Tasglu Cydraddoldeb Hiliol sy'n effeithio ar gynnydd y gwerthoedd hynny sy'n rhan annatod o'r rhaglen, yn enwedig o ran canlyniadau i'r gymuned PDdLLE. Esboniodd yr Arweinydd y byddai hynny'n adroddiad ar wahân ar y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol ym mis Rhagfyr gydag argymhellion. O ran mapio'r ymrwymiadau hynny i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, roedd gwahanol ryngwynebau megis Gwasanaeth i Mewn i Waith , Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac ati byddai'r rhain yn cael eu gwreiddio i'r rhaglen ac nid 'ychwanegiad'.

Cyfeiriodd aelodau at y term 'hyblygrwydd' gan holi beth mae hyn yn ei olygu i'r Cyngor. Esboniodd swyddogion ei fod yn golygu gallu addasu i unrhyw newidiadau a allai ddod yn sgil anhawster recriwtio ac ati.

Gofynnodd aelodau a fyddai methu recriwtio staff yn effeithio ar yr arian mae Caerdydd yn derbyn. Eglurodd swyddogion os na allan nhw wario'r arian yna ie, y byddai. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, fel rhan o'r dyraniad, mae'n rhaid i chi fod yn sicr y gallwch wario'r arian, felly mae angen hyblygrwydd oherwydd efallai y bydd angen ei ailddyrannu.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 38 : BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD - TROSOLWG A CHRAFFU AR Y CYD: DIWEDDARIAD

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi diweddariad i Aelodau ar waith Pwyllgor Craffu'r Fargen Ddinesig.

Roedd y Prif Swyddog Craffu yn cynghori'r Aelodau mai hwn oedd yr adroddiad cyntaf i'r Pwyllgor hwn felly roedd yn darparu gwybodaeth gefndirol gan fwyaf.

CYTUNWYD: i nodi'r diweddariad a ddarperir ar Gabinet BDdPRC a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd.

## 39 : GOHEBIAETH

Dywedodd y Cadeirydd mai diben yr eitem hon oedd rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am yr ohebiaeth a anfonwyd ac a dderbyniwyd.

Rhoddodd y Prif Swyddog Craffu drosolwg o'r ohebiaeth a dderbyniwyd a'r ymatebion yr oedd disgwyl amdanynt.

CYTUNWYD: i nodi'r adroddiad.

## 40 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

## 41 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Llun 12 Rhagfyr 2022 am 5:00pm

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm